**CYNGOR GWYNEDD**

**CERBYD HACNI RICSIO**
**AMODAU'R DRWYDDED**

## A. – STATWS CYFREITHIOL

1. Paratowyd yr Amodau hyn yn unol ag Adrannau 47 a 59, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

2. Gallai torri un neu fwy o'r Amodau hyn arwain at atal, diddymu, neu wrthod adnewyddu trwydded yn unol ag Adrannau 60 a 61 o'r Ddeddf honno.

## B. – DEHONGLIAD

1. Yn yr Amodau hyn, bydd y geiriau a ganlyn yn golygu'r hyn a briodolir iddynt isod:

| | |
|---|---|
| "Deddf 1847" | Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 |
| "Y Ddeddf" | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 |
| "Y Cyngor" | Cyngor Gwynedd |
| "Y Drwydded" | Trwydded a roddir ar gyfer Cerbyd Hacni Ricsio a roddir yn unol ag Adran 37, Deddf 1847 |
| "Cerbyd Hacni" | Cerbyd sydd wedi'i thrwyddedu dan Adran 37, Deddf 1847 |
| "Gyrrwr Cerbyd Hacni" | Gyrrwr wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Lleol i fod yn gyfrifol am gerbyd hacni ricsio |
| "Rhif trwydded y cerbyd" | Y rhif a glustnodir gan y Cyngor i drwydded ar gyfer cerbyd hacni |
| "Cerbyd trwyddedig" | Cerbyd hacni |
| "Plât y Cerbyd" | Y plât a ddarperir gan y Cyngor, i'w osod ar y cerbyd hacni yn unol ag Adran 38, Deddf 1847 |

2. Dylid dehongli unrhyw gyfeiriadau at wrywod i gynnwys benywod hefyd, lle bo hynny'n briodol.

3. Bydd unrhyw eiriau a chymalau eraill yn yr Amodau hyn yn dwyn yr ystyron a briodolwyd iddynt (os o gwbl) yn y Ddeddf ac yn y Ddeddf 1847.

4. Dylid dehongli'r holl ymrwymiadau yn Amodau'r Drwydded fel ymrwymiadau'r Drwydded.

**<u>C – YR AMODAU</u>**

1. Rhaid cyflwyno pob ricsio i'r Cyngor pan a lle bo angen, ac ni ardystir unrhyw ricsio yn addas ar gyfer defnydd y cyhoedd oni bai ei fod wedi'i orffen yn iawn, a'i fod mewn cyflwr da. Ni fydd y Trwyddedai yn atal unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu Gwnstabl rhag archwilio'r ricsios ar unrhyw adeg i weld a yw'n addas i'w ddefnyddio.

2. Pan fydd y ricsio yn cael ei archwilio i ddibenion trwyddedu, rhaid cyflwyno tystysgrif perchnogaeth a pholisi yswiriant sy'n cynnwys ei ddefnyddio am dâl neu wobr a risg i deithwyr, a hynny i foddhad y Cyngor.

3. Bydd y cerbyd trwyddedig yn cydymffurfio â gofynion Deddfau Traffig Ffyrdd ac unrhyw Ddeddfau eraill sy'n berthnasol i gerbydau sy'n defnyddio priffordd gyhoeddus, cyn belled ag y bo hynny'n briodol.

4. Bydd y cerbyd trwyddedig a'i holl osodiadau, yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel, effeithlon, glân a thaclus, a chaniateir i unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor, neu Gwnstabl, ei archwilio pan wneir cais, a bydd y trwyddedai yn:

   (a) cydymffurfio ag unrhyw rybudd a gyflwynir iddo gan swyddog o'r fath neu Gwnstabl, dan Adran 68 y Ddeddf, yn atal y drwydded, ac yn gofyn iddo fynd â'r cerbyd i'w archwilio a'i brofi ar amser, ac i rywle sy'n rhesymol, fel y gellir ei nodir, er mwyn canfod pa mor addas ydyw.

   (b) Sicrhau na ddefnyddir y cerbyd trwyddedig i gludo teithwyr am dâl neu wobr hyd oni bydd ei addasrwydd wedi'i sicrhau.

   (c) Dychwelyd plât y cerbyd i'r Cyngor ar unwaith ar ôl derbyn rhybudd atal dan Adran 58 y Ddeddf.

5. Rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, cyn gwneud unrhyw newidiadau i ddyluniad neu adeiladwaith y cerbyd trwyddedig, a rhaid cyflwyno manylion llawn ynghylch y newidiadau, a bydd angen archwilio'r cerbyd trwyddedig ymhellach.

6. Bydd y trwyddedai yn rhoi gwybod i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o fewn pum diwrnod, am

   (a) Unrhyw ddamwain yn cynnwys y cerbyd trwyddedig
   (b) Unrhyw newid cyfeiriad ar gyfer y trwyddedai.

7. Dylai'r sedd a ddarperir yn y cerbyd trwyddedig gael ei fesur mewn llinell syth yn y blaen a dynodir hyd o 40 centimedr fel lle digonol i un person.

8. Bydd teiars rwber ar y cerbyd trwyddedig, a byddant yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

9. Ni fydd nifer y teithwyr a gludir yn fwy na'r nifer y mae'r ricsio wedi'i drwyddedu ar eu cyfer, fel a nodir ar y drwydded a phlât y cerbyd, ac ni chaniateir i unrhyw un deithio wrth eistedd ar lin unrhyw un o'r teithwyr. Rhaid i'r teithwyr yn y cerbyd wisgo gwregys arffed bob amser. Ni fydd unrhyw un dan un ar bymtheg mlwydd oed yn cael teithio heb fod oedolyn gyda hwy.

10. Bydd plât y cerbyd yn cael ei osod ar y cerbyd trwyddedig, hyd foddhad y Cyngor.

11. Rhoddir y drwydded hon yn amodol ar gyflwyno adroddiadau archwilio mecanyddol pellach, fel y gallai eu bod angen o bryd i'w gilydd, gan unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor. Y ricsio i gael ei archwilio yn fecanyddol bob blwyddyn gan gwmni annibynnol cymeradwy, i dystio pa mor addas ydyw ar gyfer y ffordd fawr.

12. Bydd y gyrrwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o fewn pum diwrnod o'i gael yn euog o:

   (a) Unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth Traffig Ffyrdd neu unrhyw drosedd o anonestrwydd, anwedduster neu drais.

   (b) Fod yn ymwybodol o unrhyw salwch neu anabledd a allai gael effaith ar ei allu i yrru.

13. Bydd y trwyddedai yn cyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol i'w harchwilio, pan wneir cais, gan swyddog o'r Cyngor neu unrhyw Gwnstabl, a bydd yn rhoi cymorth a chyflwyno gwybodaeth a all fod eu hangen yn rhesymol, gan swyddog neu Gwnstabl o'r fath, mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol.

14. Bydd y gyrrwr bob amser yn lân ac wedi gwisgo'n barchus, gan ymddwyn yn gwrtais a pharchus.

15. Ni ddylai'r gyrrwr ysmygu na bwyta tra mae'r cerbyd yn symud neu yn cludo'r teithwyr.

16. Dilynir pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y teithwyr wrth fynd i mewn i'r cerbyd trwyddedig, a chael eu cludo ac wrth ddod o'r cerbyd.

17. Os bydd angen, bydd y gyrrwr yn rhoi derbynneb ysgrifenedig am y pris a dalwyd i'r sawl sy'n hurio'r cerbyd.

18. Bydd y gyrrwr bob amser yn gwisgo bathodyn adnabod y gyrrwr mewn man sy'n glir a gweladwy wrth yrru, a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor ar unwaith os bydd yn colli'r bathodyn, er mwyn cael bathodyn newydd. Y gyrrwr yn talu ffi y gall y Cyngor ei bennu ar gyfer yr un peth.

19. Bydd y gyrrwr yn chwilio'n ofalus yn y cerbyd trwyddedig am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael ei adael ynddo, union ar ôl i'r hurio ddod i ben, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny, ac oni bai fod y perchennog yn hawlio unrhyw eiddo, neu fod rhywun yn hawlio unrhyw eiddo ar ran y perchennog, bydd y gyrrwr yn mynd ag unrhyw eiddo y daeth o hyd iddo, neu y daeth unrhyw un arall o hyd iddo, i Swyddfa Heddlu yn y Sir cyn gynted ag sy'n ymarferol (ac o fewn 48 awr), gan adael yr eiddo gyda'r swyddog ar ddyletswydd ar ôl cael derbynneb.

20. Ni fydd y gyrrwr yn hawlio ffi uwch na'r hyn a gytunwyd rhwng y sawl sy'n hurio'r cerbyd a'r trwyddedai.

21. Ni fydd y gyrrwr yn cludo unrhyw anifail, oni bai ei fod yng ngofal y sawl sy'n hurio'r cerbyd, a bydd yn sicrhau bod yr anifail yn cael ei ffrwyno'n ddiogel beth bynnag.

22. Ni fydd y gyrrwr yn cludo unrhyw berson neu anifail arall yn y cerbyd trwyddedig, heb ganiatâd y sawl sy'n hurio'r cerbyd.

**23.** Ni fydd y gyrrwr yn peri niwsans i ddeiliaid unrhyw eiddo neu ddefnyddwyr tir wrth yrru neu tra byddant yn gyfrifol am gerbyd trwyddedig.